

RHYW FARWOL LAW

gan Gerald Morgan


Pa gasglwr hen lyfrau Cymraeg nad yw'n gwerthfawrogi cerdd Robert Williams Parry, 'Gorchestion Beirdd Cymru' 1773? Ynddi mae'n mynegi'r ias sy'n dod o ddarllen, ymhlith campweithiau beirdd yr uchelwyr, enwau a sylwadau perchnogion y gyfrol. Pan oeddwn yn athro, pechod anfarwol oedd i ddisgybl ysgrifennu ar lyfr ysgol neu lyfrgell. Ond pan fo'r ysgrifen yn ddau gant oed, mae'n wahanol; gall dyn ymhyfrydu ynddi, fel y gwnaeth R.T. Jenkins yn ei ysgrif 'Ymyl y Ddalen'. Ymhlith fy llyfrau i, caf yr un ias, er bod y sylwadau gan amlaf mewn cyfrolau sydd erbyn hyn yn fwy diddorol am y nodiadau hyn nag am eu testunau printiedig.

Un rheswm am ysgrifennu ar ymyl y ddalen, neu o fewn y cloriau, oedd prinder papur arall i ymarfer llawysgrifen. Ers talwm yr oedd papur glân yn gostus; ni fedrai pobl gadw tomen o bapur glân yn y tŷ; rhacs llin oedd defnydd y papur, y dulliau o'i drin yn gostus, a threthau ar ben hynny. Felly ceir pobl yn ysgrifennu rhesi o'r un llythren er mwyn ymgyfarwyddo â'r grefft. Dyma nodyn un o berechnogion argraffiad 1672 o Holl Ddledswydd Dyn [sic] 'Richard Edwards this is my best hand righting and my best learning.'

Rheswm yr un mor syml, ac yn fwy cyffredin, yw nodi perchnogaeth. Mewn copi drylliedig o eiriadur Thomas Jones, Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb (1688), ceir 'Richard Griffiths his hand pen and Jenk 1723'. 'Edward Jenkins his Book 1731' a lliaws rhagor o enwau. Mwy anghyffredin yw'r rhestr o enwau sy'n mynd fel hyn: 'William Jones began his qter the 17th of January 1715', 'Nathan Jones began his qter the 9er 1716', a thri enw arall yn dilyn, bob un yn ei law ei hun. Pa chwarteri?

Mwy na dyddiad yn unig mewn llyfr

Gall nodiadau perchnogaeth fod yn fwy cymhleth na'r honiadau arferol. Mewn copi o argraffiad Prif Ddledswyddau Christian [sic] 1722, ceir 'Edward Cadwalader is The true Owner of This Booke Being the Gift of Robert Griffith Who Witnesset ye same Anno Dimi



Wyneb-ddalen :
Holl Ddled-Swydd Dyn (1711)

1744 Robert Griffith'. Ond yn od iawn ceir nodyn arall yn dweud 'Edward Cadwalader his book 1731'.

Mewn copi o argraffiad 1718 o Holl Ddyledswydd Dyn ceir 'Gabriel Stephen His Book. The Gift of Mr Charles Maurice to Gabriel Stephen for Ever. April ye 24th 1738'. Ac mewn man arall ceir 'The gift of Charles Maurice an agent to the Honourable Lord Viscount Bulkeley'. Deunaw mlynedd yn ddiweddarach trodd Gabriel Stephen at ddiwedd y gyfrol i ychwanegu hyn:

*When I am dead and out of mind
And on the earth I am not find
And Crawling worms me doth eat
Here you'll find my name Compleat.
March the 29th 1756, Gabriel Stephen.*

Mae enwau perchnogion llyfr yn gyffredin, ac weithiau ceir mwy nag enw a dyddiad yn unig. Er enghraifft, yn Gair i Bechaduriaid a gair i'r Sainct (1676), un o lyfrau'r Welsh Trust, ceir 'Edward David his Book 1747 Edward David ydi gwir Berchen Llyfur hwn fo Ai prynodd gan Humphrey Jones yn bala am 1s 0d 1747'. Ar y wyneb-ddalen ceir 'David Edward Bia yr Llyfur hwn wedi ei Brynu gan Edward David yn 1791 Gorffena 15.' Ynghlwm wrth enw perchnog ceir weithiau nodyn ynghylch breuder bywyd. Er enghraifft, ceir yn Y Ffydd Ddi-ffuant... 1677. 'John Morgan his name in the year one thousand seven hundred and forty when I am ded and out of mind within this Book my name you find and when my name then you planly see then perhaps you think of me'. Ond yn fwy deifiol, ac o fewn yr un gyfrol, cefais hyd i ffurflen meddyg o'r 1920au: 'This is to Certify that Jane Ellen residing at Cwmorthin is suffering from General Debility & Malnutrition and is unable to follow her school. Signed J.D. Davies, Surgeon'.

Ar yr un trywydd, y tu fewn i gopi o'r Ymddiddan rhwng Methodist Uniawn-gred, ac Un Camsyniol [1750], ceir 'Thomas Williams


is my name and with my pen i write the same when greedy Worms my Body eat here you shall read my name Compleat'. Erbyn hyn bydd y darllenydd wedi sylwi bod y nodiadau hyn bron i gyd mewn Saesneg. Yr unig nodyn Cymraeg a gefais hyd iddo hyd yn hyn yw sylwad y tu mewn i Prif Ddledswyddau Christian, sef angenrhaid a mawrllles mynych gymuno (1722), sy'n dweud yn syml 'Edward Peter o lan y Gyffio a drwsiodd y llyfr a dyna i gyflog £0=2=6d'.

Eto, os oedd prinder ymhlith perchnogion llyfrau i roi sylwadau personol yn eu hiaith gyntaf, roeddynt yn ddigon parod i rigymu yn Gymraeg, neu ddyfynnu – nid yw'n bosibl bob amser i fod yn siwr. Yn fy nghopi o Holl Ddyledswydd Dyn (1718), ceir yr englyn dymunol, os nad gwreiddiol:

*Ni a ddylem iawn ddilyn, y Grissiau
gwiw rasol sy'n canlyn
Ein porthiant ini perthyn
holl ddyledswydd dedwydd dyn.*

Yn fwy deifiol, ceir englyn yn Drych y Prif Oesoedd (1740) yn ddamnio offeiriad yr Eglwys Wladol:

*Y ffeiried oe'nt euraid cyn oeri – Crefydd
Cryf oeddent mewn Gweddii
Y nawr Meddwod sydd yn codi
'Nifeiliaid yw'n Bugeileid ni.*



Llyfr Gwybodaeth Y Cymro neu Hanes y Byd a'r Amseroedd 1824

GAIR i BECHADURIAID, A GAIR i'r SAINCT.

Y cyntaf yn tueddu i ddeffro'i Cydwybodaeth Pechaduriaid diofal, i wir deimlad ac ystyriaeth o'r cyflwr erchyll y maent ynddo, tra fyddont yn byw yn eu cyflwr Naturiol heb yr Ail-enedigaeth.

Yr ail, yn tueddu i gyfarwyddo ac i berfwadio y Duwiol, a'r rhai a Ail-anwyd i amryw ddledswyddau enwedigol.

Gan Tho. Gorge Gweinidog yr Efenngyl. Ac a gyfieithwyd yn Gymraeg gan W. Jones Gweinidog yr Efenngyl.

Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y Flwyddyn 1676.

Wyneb-ddalen : Gair i Bechaduriaid a Gair i'r Sainct (1676)

A chan ei fod yn weddus i derfynu gyda gweddii, dyma bennill gan gyfaill di-enw o'r 18fed ganrif mewn copi o Hanes y Byd a'r Amseroedd (1780):

*Pechadur aflan wyf or bru
Mewn pechod im cenhedldwyd i
Om ben im traed does fan heb fod
Yn llawn o'r pechod aflan nod
Crist derchafedig yn y nef
Crist Arglwydd Ddyw tragwyddol ef
O groth y forwyn yn Ddyn byw
A ddaeth i achub dunol ryw.*